OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2014 Rhif 910 (Cy. 89)

# LANDLORD A THENANT, CYMRU

## Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *2 Ebrill 2014* |
| *Yn dod i rym - -* | *4 Ebrill 2014* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 13(2) a 45(5) o Ddeddf Tai 1988(**1**) ac a freiniwyd(**2**) bellach yng Ngweinidogion Cymru i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 4 Ebrill 2014.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â mangreoedd yng Nghymru.

### Diwygio Ffurflenni Rhagnodedig Cymraeg

**2.** Yn yr Atodlen i Reoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997 (Ffurflenni a ragnodir at ddibenion Rhan I o Ddeddf Tai 1988)(**3**)—

(a) ym mharagraff 2 o destun Cymraeg y Canllawiau i Ffurflen 4D (hysbysiad landlord yn cynnig rhent newydd ar gyfer tenantiaeth gyfnodol sicr mangreoedd yng Nghymru)(**4**) hepgorer o "Dylech hefyd hysbysu" i "yn hawlio budd-dal" ac yn ei le rhodder—

"Mae'n ofynnol i chi hefyd hysbysu'r swyddfa Budd-daliadau Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio Budd-dal neu'r Adran Gwaith a Phensiynau

(**1**) 1988 p. 50. I gael diffiniad o "prescribed", *gweler* adran 45(1). Ar gyfer darpariaeth ynghylch meddianaethau amaethyddol, *gweler* adran 24.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 13, i'r graddau eu bod yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cendlaethol Cymru (Trosgwlyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672), ac Atodlen 1 iddi. Mae'r swyddogaethau hyn bellach wedi eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) O.S. 1997/194.

(**4**) Mewnosodwyd ffurflen 4D gan O.S. 2003/307 (Cy. 46)

os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae gwefan Gov.UK yn rhoi cyngor pellach: https://www.gov.uk"; a

(b) ym mharagraff 2 o destun Cymraeg y Canllawiau i Ffurflen 4E (hysbysiad landlord neu drwyddedwr yn cynnig rhent neu ffi'r drwydded newydd ar gyfer meddiannaeth amaethyddol sicr mangreoedd yng Nghymru)(**5**) hepgorer o "Dylech hefyd hysbysu" i "yn hawlio budd-dal" ac yn ei le rhodder—

"Mae'n ofynnol i chi hefyd hysbysu'r swyddfa Budd-daliadau Tai yn eich awdurdod lleol os ydych yn hawlio Budd-dal neu'r Adran Gwaith a Phensiynau os ydych yn hawlio Credyd Cynhwysol. Mae gwefan Gov.UK yn rhoi cyngor pellach: https://www.gov.uk".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Tai ac Adfywio,
un o Weinidogion Cymru

2 Ebrill 2014

(**5**) Mewnosodwyd ffurflen 4E gan O.S. 2003/307 (Cy. 46).

---

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ffurflenni Cymraeg penodol a ragnodir yn Rheoliadau Tenantiaethau Sicr a Meddianaethau Amaethyddol Sicr (Ffurflenni) 1997(**6**), fel y'u diwygiwyd(**7**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau o ganlyniad i Ddeddf Diwygio Lles 2012 (p. 5) ac yn mewnosod cyfeiriadau yn y ffurflenni hynny at gredyd cynhwysol.

(**6**) O.S. 1997/194.
(**7**) *Gweler* O.S. 2003/307 (Cy. 46).